

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 23^{ain} TACHWEDD 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym – yn cofnodi
Will G Roberts
Glyn Daniels
Annwen Daniels
Mark Thomas

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Elin Roberts
Ronwen D Roberts
Clerc y Dref

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Prynu offer i Gae Manod**
Yr oedd dyfynbris wedi ei dderbyn gan G L Jones ar gyfer offer o'r enw Marian Glas.
Argymhelliad:
Gohirio gwneud penderfyniad ar brynu offer newydd er mwyn galluogi rhagor o ymchwil mewn i offer chwarae "man made timber" gan gwmni o'r enw Marmax Recycled Products, fel sydd yn Nhalysarn.
2. **Glanhau matiau diogelwch:**
Yr oedd dyfynbris wedi ei dderbyn ar gyfer glanhau matiau diogelwch ym mhob cae chwarae.
Argymhelliad:
I dderbyn y dyfynbris gan ofyn am daflen yn unol â rheolau COSH ar gyfer pob cemegydd sydd yn cael ei ddefnyddio.
3. **Tir Tan y Manod:**
Cafwyd wybod gan Gynghorydd y Ward bod trigolion sydd yn byw ger y tir sydd ar werth gan CCG yn erbyn y syniad o greu rhandiroedd ar y safle, gan y byddai rhagor o geir yn defnyddio'r ffordd, sydd yn gul ac nad oes digon o le i geir ychwanegol barcio. Er y gwrthwynebiad i randiroedd, adroddwyd bod trigolion lleol yn croesawu'r syniad o sefydlu perllan ac wedi cynnig gwirfoddoli gyda'r plannu.
Cafwyd wybod gan Gynghorydd y bod llysiau'r dial ar y safle, ond bod y planhigyn wedi ei drin. Trafodwyd costau o gynnal a chadw'r tir, gan y byddai angen gosod ffens newydd yn y dyfodol a bod posibilrwydd o gostau yn ymwneud a thrwsio draeniau.
Argymhelliad:
I beidio symud ymlaen a phrynu'r tir, gan fod y costau ynghlwm a'r pryniant yn uwch nac y disgwyliid pan gyflwynwyd y tendr, yn sgil penderfyniad CCG fel y gwerthwr i'r prynwr dalu holl gostau'r gwerthwr, sydd oddeutu £1,200 + TAW, ac oherwydd y potensial o gostau parhaol i'r trethdalwr.

